Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
61/2024
DYDDIAD CYHOEDDI: 19/07/2024

# Adnoddau a chanllawiau ar gyfer gofal plant, lleoliadau chwarae ac ysgolion ar chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar i blant 0–5 oed yng Nghymru: Canfyddiadau o ymgysylltu â rhanddeiliaid, Hydref – Rhagfyr 2023

OGL © Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-83625-393-8

Adnoddau a chanllawiau ar gyfer gofal plant, lleoliadau chwarae ac ysgolion ar chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar i blant 0–5 oed yng Nghymru:

Canfyddiadau o ymgysylltu â rhanddeiliaid, Hydref – Rhagfyr 2023

Awdur:
Dr Jack Watkins

Adroddiad Ymchwil Llawn: Watkins, J. (2024) Adnoddau a chanllawiau ar gyfer gofal plant, lleoliadau chwarae ac ysgolion ar chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar i blant 0–5 oed yng Nghymru: Canfyddiadau o ymgysylltu â rhanddeiliaid, Hydref – Rhagfyr 2023. Adroddiad GSR rhif: 61/2024
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/adnoddau-a-chanllawiau-ar-gyfer-lleoliadau-gofal-plant-a-chwarae-ac-ysgolion-canfyddiadau-o-ymgysylltu-a-rhanddeiliaid

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Enw: Dr Jack Watkins
Adran: Isadran Cefnogi Tystiolaeth Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwil.plantatheuluoedd@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**


1. Cefndir ........ 4
2. Trosolwg o'r ymatebion ........ 5
3. Y Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ........ 7
4. Y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol ........ 9
5. Llwybrau Datblygu 0 i 3 ........ 10
6. Crynodeb ........ 11

Atodiad 1 – Holiadur – Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru a deunyddiau ategol, [wedi'i gyfieithu'n flaenorol, Ll(304006)(w)]...... 12

# 1. Cefndir

1.1. Ym mis Mehefin 2023, fel rhan o’n dull Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ar gyfer plant 0–5 oed yng Nghymru, cyhoeddwyd yr adnoddau canlynol ar ffurf drafft, i gefnogi ymarferwyr i ddarparu chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar o safon:

- Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru
- Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru: Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol
- Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Llwybrau Datblygu 0 i 3

1.2. Cyhoeddwyd yr adnoddau hyn ar ffurf drafft am flwyddyn i alluogi ymgysylltu ac adborth ar sut roedd yr adnoddau'n cael eu gweithredu'n ymarferol ac i nodi meysydd i'w diwygio ymhellach, gan gynnwys yr angen am unrhyw ddeunyddiau ategol ychwanegol.

1.3.

1.4. Datblygwyd yr adnoddau i bob lleoliad gofal plant a chwarae ac ysgolion yng Nghymru eu mabwysiadu, petaent yn dymuno gwneud hynny, ac yn eu cyfanrwydd, er mwyn cefnogi darpariaeth o safon i holl fabanod a phlant ifanc Cymru.

1.5. Rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023, cynhaliwyd arolwg yn gofyn am farn ar yr adnoddau cyhoeddedig o ran sut roeddent yn cael eu gweithredu’n ymarferol ac ar feysydd i’w diwygio ymhellach, gan gynnwys unrhyw ddeunyddiau ategol ychwanegol yr oedd eu hangen.

1.6. Cynlluniwyd a darparwyd yr arolwg gan dîm Ymchwil a Thystiolaeth Gofal Plant, Teuluoedd a Phlant yn Llywodraeth Cymru. Cynlluniwyd yr arolwg i gasglu adborth ar bob un o'r adnoddau ar wahân. Mae copi o'r holiadur a ddefnyddiwyd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

1.7. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein gan ddefnyddio Smart Survey. Fe'i dosbarthwyd trwy gysylltiadau a wnaed fel rhan o’r gwaith o ddatblygu’r adnoddau, yn ogystal â thrwy rwydweithiau ehangach. Gofynnwyd am ymatebion gan ymarferwyr a rheolwyr gofal plant, gwarchodwyr plant a’u cynorthwywyr, arweinwyr a chynorthwywyr cylchoedd chwarae, gweithwyr chwarae, ymarferwyr Dechrau’n Deg, cynorthwywyr addysgu, athrawon, Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar ac arweinwyr Dysgu Sylfaen mewn lleoliadau addysg, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol.

1.8. Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o’r ymatebion a dderbyniwyd i’r arolwg. Gofynnwyd i’r ymatebwyr beidio â darparu unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i’w hadnabod eu hunain nac unrhyw berson arall, ac adolygwyd ymatebion i sicrhau nad oedd unrhyw wybodaeth o’r fath yn cael ei chynnwys. O ganlyniad, mae’r dystiolaeth a gyflwynir yn y papur hwn yn gwbl ddienw.

# 2. Trosolwg o'r ymatebion

2.1. Derbyniwyd cyfanswm o 69 o ymatebion. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi eu rôl broffesiynol. Mae Tabl 1 isod yn cyflwyno crynodeb o'r rolau hyn.

**Tabl 1: Ymatebion i'r cwestiwn 'Beth yw eich rôl bresennol?'**

| | Nifer yr ymatebion | Canran y cyfanswm |
|---|---|---|
| **Ymarferydd gofal plant** | 40 | 58.0% |
| **Ymarferydd addysg** | 12 | 17.4% |
| **Ymarferydd gwaith chwarae** | 3 | 4.3% |
| **Arall (nodwch):** | 14 | 20.3% |
| **Cyfanswm** | **69** | |

2.2. Mae Tabl 1 yn dangos bod mwyafrif yr ymatebwyr yn ymarferwyr gofal plant (58 y cant), gyda chyfrannau llai o ymatebwyr yn ymarferwyr addysg, ymarferwyr gwaith chwarae ac yn gwneud rolau 'eraill'. O'r rhai a nododd rolau 'eraill', roedd chwech yn ymwneud yn uniongyrchol â gofal plant (gan gynnwys perchnogion a rheolwyr gwasanaethau gofal plant), ac roedd y gweddill yn cynnwys academyddion, athrawon ymgynghorol a'r trydydd sector.

2.3. Gellir categoreiddio ymatebwyr yn fras fel rhai sy'n gweithio'n bennaf naill ai ym maes gofal plant (n=51) neu addysg (n=18). Cyfeirir at y categorïau hyn drwy gydol yr adroddiad hwn.

2.4. Mae Tabl 2 isod yn dangos y mathau o leoliadau y nododd ymatebwyr eu bod yn gweithio ynddynt.

**Tabl 2: Ymatebion i'r cwestiwn 'Pa fath o leoliad rydych chi'n gweithio ynddo?'**

| | Nifer yr ymatebion | Canran y cyfanswm |
|---|---|---|
| **Gwarchodwr plant** | 10 | 14.5% |
| **Meithrinfa breifat** | 19 | 27.5% |
| **Meithrinfa a gynhelir gan yr awdurdod lleol** | 5 | 7.2% |
| **Meithrinfa yn yr ysgol** | 11 | 15.9% |
| **Darparwr gwaith chwarae** | 2 | 2.9% |
| **Arall (nodwch):** | 22 | 31.9% |
| **Cyfanswm** | 69 | |

2.5. Dengys Tabl 2 nad oedd un math o leoliad lle'r oedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gweithio. Meithrinfeydd preifat oedd y math â'r nifer fwyaf o ymatebwyr, er bod nifer fawr wedi dewis 'arall'. Roedd y rhai a ddewisodd 'arall' yn cynnwys gwasanaethau gofal plant a chwarae nas cynhelir cyfrwng Saesneg (n=8). Cylchoedd meithrin (meithrinfeydd Cymraeg nas cynhelir, n=5), awdurdodau lleol (n=4) ac eraill mewn sefydliadau ymbarél addysg uwch a blynyddoedd cynnar. At ei gilydd, ac wedi'u cyfuno â chanfyddiadau yn Nhabl 1, mae'r ymatebion hyn yn dangos bod ymarferwyr y blynyddoedd cynnar a ymatebodd i'r arolwg hwn yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau.

2.6. Mae Tabl 3 isod yn dangos y cafwyd ymatebion gan ymarferwyr sy'n byw yn y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol Cymru, ond nid ym mhob un ohonynt.

**Tabl 3: Ymatebion i'r cwestiwn 'Ym mha awdurdod lleol rydych chi wedi'ch lleoli?'**

| | Nifer yr ymatebion | Canran y cyfanswm |
|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 0 | 0.0% |
| **Gwynedd** | 6 | 8.8% |
| **Conwy** | 4 | 5.9% |
| **Sir Ddinbych** | 4 | 5.9% |
| **Sir y Fflint** | 4 | 5.9% |
| **Wrecsam** | 6 | 8.8% |
| **Powys** | 1 | 1.5% |
| **Ceredigion** | 2 | 2.9% |
| **Sir Benfro** | 0 | 0.0% |
| **Sir Gaerfyrddin** | 1 | 1.5% |
| **Abertawe** | 1 | 1.5% |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 1 | 1.5% |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 5 | 7.4% |
| **Bro Morgannwg** | 4 | 5.9% |
| **Caerdydd** | 4 | 5.9% |
| **Rhondda Cynon Taf** | 1 | 1.5% |
| **Merthyr Tudful** | 2 | 2.9% |
| **Caerffili** | 3 | 4.4% |
| **Blaenau Gwent** | 5 | 7.4% |
| **Torfaen** | 4 | 5.9% |
| **Sir Fynwy** | 7 | 10.3% |
| **Casnewydd** | 1 | 1.5% |
| **Ddim yn gwybod** | 2 | 2.9% |
| **Dim ymateb** | 1 | 1.5% |
| **CYFANSWM** | 69 | |

2.7. Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion o Ynys Môn na Sir Benfro, tra bod niferoedd uwch o Sir Fynwy (7), Gwynedd (6) a Wrecsam (6). Mae hyn yn debygol o fod yn nodwedd o ddosbarthiad yr arolwg trwy rwydweithiau amrywiol a'r effaith 'pelen eira' ddilynol wrth i ymatebwyr drosglwyddo gwybodaeth i gysylltiadau yn eu rhwydweithiau uniongyrchol. Yng ngweddill yr adroddiad hwn, caiff canfyddiadau eu trafod ar lefel Cymru gyfan.

# 3. Y Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar

3.1. Gofynnwyd cwestiynau penodol i'r ymatebwyr am y Fframwaith Ansawdd. Roedd 62 o'r 69 o ymatebwyr (90 y cant) wedi clywed am y Fframwaith Ansawdd. Roedd ymatebwyr sy'n gweithio'n bennaf ym maes gofal plant yn fwy tebygol o fod wedi clywed am y Fframwaith Ansawdd (94 y cant) o gymharu â'r rhai sy'n gweithio'n bennaf ym myd addysg (78 y cant).

3.2. Roedd ymatebwyr wedi clywed am y Fframwaith Ansawdd trwy amrywiaeth o wahanol ffynonellau, gydag ychydig yn llai na hanner (48.5 y cant) wedi clywed amdano trwy sefydliad blynyddoedd cynnar, a niferoedd cyfartal o ymatebwyr (17.6 y cant) wedi clywed amdano trwy gyd-weithiwr neu reolwr, neu drwy wefan Llywodraeth Cymru.

3.3. Er bod 90 y cant o ymatebwyr wedi clywed am y Fframwaith Ansawdd, roedd llai o ymatebwyr (65 y cant) wedi darllen y ddogfen. O'r rhai a oedd wedi darllen y ddogfen (45), roedd bron pob un yn meddwl ei bod yn hawdd ei darllen (43), yn defnyddio iaith berthnasol (44), ac yn berthnasol i'r gwaith a wnânt (44).

3.4. Roedd y thema fwyaf cyffredin yn y sylwadau yn ymwneud â'r berthynas rhwng y Fframwaith Ansawdd a'r Cwricwlwm i Gymru ac yn benodol y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio terminoleg gyffredin, megis set gyffredin o 'alluogwyr'.

> "Mae llawer o'n lleoliadau gofal plant hefyd yn ddarparwyr addysg gynnar ac mae'r Fframwaith hwn yn cysylltu'n glir â'r Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Nas Cynhelir, sy'n ei gwneud yn hawdd i'w ddefnyddio ac mae'n cyd-fynd yn dda â'r hyn y dylent fod yn ei wneud eisoes yn eu lleoliad."

3.5. Amlygodd rhai sylwadau fod gan y Fframwaith werth arbennig o ran darparu dull o gefnogi'r plant ieuengaf, y rhai 0–3 oed. Amlygodd sawl sylw bwysigrwydd chwarae a dysgu a datblygiad sy'n canolbwyntio ar y plentyn, a bod hyn yn cael ei adlewyrchu'n dda yn y Fframwaith.

> "Mae'n wych cael dogfen o'r diwedd sy'n ymwneud â'r grŵp oedran hwn lle mae chwarae a dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn ganolog iddi."

3.6. Fodd bynnag, roedd sylwadau eraill yn nodi'r posibilrwydd o ddryswch, gan fod y Fframwaith yn defnyddio terminoleg ychydig yn wahanol i rai dogfennau perthnasol eraill, fel y canllawiau asesu ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

> "Nid yw'r iaith a ddefnyddir yn y ddogfen asesu a ddefnyddir wrth ymyl y ddogfen hon yn cyfateb ac mae'n cymryd llawer o amser i baru. Byddai wedi bod yn llawer symlach defnyddio'r un adrannau/llwybrau ar gyfer y ddogfen asesu."

3.7. Teimlai nifer fach o ymatebwyr nad oedd y Fframwaith yn darparu digon o wybodaeth i'w defnyddio i lywio'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm ac i ddylanwadu ar asesu.

> "Nid oes llawer o wybodaeth am y 'beth' yn natblygiad plant megis meysydd dysgu cynnar."

> "[Nid oes] eglurhad ar sut i asesu a dogfennu'r sylwadau."

3.8. Nododd ymatebwyr eraill hyd a chymhlethdod y ddogfen, a sut, ar y cyd â dogfennau eraill a gynhyrchwyd yn ymwneud â datblygu'r cwricwlwm, y byddai hyn yn creu gwaith i ymarferwyr ac, o bosibl, yn creu dryswch os nad oedd yn glir sut y dylid defnyddio dogfennau gyda'i gilydd. Galwodd rhai ymatebwyr am hyfforddiant, neu am ddefnyddio enghreifftiau, i ddangos sut y dylid defnyddio'r fframwaith yn ymarferol.

> "Gall ymddangos fel tipyn o waith ar yr olwg gyntaf pan welwch chi 44 tudalen, ond gwaith papur ym maes gofal plant yw hynny i gyd."

> "Mae wedi achosi ychydig o ddryswch gan leoliadau sydd eisoes yn gweithredu'r [Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Meithrin Nas Cynhelir] gan fod rhai wedi meddwl ei fod yn disodli'r cwricwlwm – mae wedi cymryd llawer o egluro gan ein tîm ynghylch a yw'n cyd-fynd â'r cwricwlwm."

> "[Mae angen] eglurhad/hyfforddiant cliriach arnom o ran sut y dylid defnyddio'r ddogfen."

3.9. O'r rhai a oedd wedi darllen y Fframwaith, teimlai tua 71 y cant (32) fod y Fframwaith wedi dylanwadu ar eu harfer. Teimlai cyfran debyg fod y Fframwaith yn eu gwneud yn fwy hyderus yn eu rôl, a bod y Fframwaith wedi'u hannog i ganolbwyntio ar ddatblygiad plentyn ac ar chwarae.

# 4. Y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol

4.1. Roedd 44 o’r 69 o ymatebwyr (64 y cant) wedi clywed am y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol, sy’n gryn dipyn yn llai na’r rhai oedd wedi clywed am y Fframwaith Ansawdd (90 y cant). Yn yr un modd â’r Fframwaith Ansawdd, roedd tua hanner y rhai a oedd wedi clywed am y ddogfen (23) wedi clywed amdani drwy sefydliad blynyddoedd cynnar, gydag eraill yn clywed drwy wefan Llywodraeth Cymru (11) neu gyd-weithiwr neu reolwr (9).

4.2. Roedd tua 50 y cant o ymatebwyr yr arolwg (35) wedi darllen y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol. O’r rhai a oedd wedi darllen y ddogfen, nododd pob un ei bod yn hawdd ei darllen, yn defnyddio iaith berthnasol, ac yn berthnasol i’w gwaith.

4.3. Gwnaeth llawer o’r ymatebwyr a oedd wedi darllen y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol sylwadau cadarnhaol ynghylch sut mae’n darparu cyfleoedd ymarferol i ymarferwyr gymryd amser i ystyried eu gwaith a sut mae’n cyfrannu at eu ffordd o feddwl am ddatblygiad plant.

> “Mae’n rhoi syniadau defnyddiol i annog datblygiad y plentyn ac yn rhoi enghreifftiau o dempledi i’w defnyddio i weld a yw’r hyn rydym yn ei wneud yn helpu’r plant neu a oes angen i ni newid rhywbeth.”

4.4. Roedd rhai ymatebwyr yn croesawu cynnwys cwestiynau sy’n annog hunanfyfyrio, ac awgrymodd un y gellid cynnwys mwy o’r rhain. Yn benodol, amlygwyd y rhain fel rhai defnyddiol ar gyfer rheoli a goruchwylio staff, ac ar gyfer cynhyrchu adroddiadau hunanwerthuso (AHA) a chynlluniau gwella lleoliad (CGYs) fel rhan o waith gwasanaethau wrth ddarparu addysg.

> “Mae’r Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol yn ddogfen ddefnyddiol i gynorthwyo lleoliadau i ysgrifennu eu hadroddiad hunanwerthuso (AHA) a chynllun gwella lleoliad (CGY). Mae hefyd yn darparu sylfaen i staff gofal plant awdurdodau lleol ei defnyddio wrth ymweld â lleoliadau a’u cefnogi.”

4.5. Gwnaed nifer fach o sylwadau am yr anhawster o gymhwyso'r Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol mewn lleoliadau llai.

> “Gall fod yn llethol i warchodwr plant neu reolwr meithrinfa breifat fach gan nad oes neb i siarad â chi drwyddo ac i hel syniadau.

4.6. O'r rhai a oedd wedi darllen y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol, teimlai 80 y cant (29) ei fod wedi dylanwadu ar eu harfer a'u gwneud yn fwy hyderus wrth gynllunio darpariaeth. Teimlai tua 83 y cant (30) ei fod wedi’u hannog i roi mwy o bwyslais ar chwarae yn eu gwaith, tra bod 77 y cant (28) yn teimlo ei fod yn eu hannog i ganolbwyntio mwy ar ddatblygiad plant.

# 5. Llwybrau Datblygu 0 i 3

5.1. Roedd 54 o'r 69 o ymatebwyr (78 y cant) wedi clywed am y ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3, sy'n llai nag oedd wedi clywed am y Fframwaith Ansawdd, ond yn fwy nag oedd wedi clywed am y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol.

5.2. Yn yr un modd â'r Fframwaith Ansawdd a'r Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol, y llwybr mwyaf cyffredin ar gyfer clywed am y ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3 oedd trwy sefydliadau aelodaeth blynyddoedd cynnar (25 o ymatebwyr, neu 46 y cant o'r rhai a oedd wedi clywed am y ddogfen). Dilynwyd hyn gan wefan Llywodraeth Cymru (16 o ymatebwyr, neu 30 y cant).

5.3. Roedd tua 60 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg (41) wedi darllen y ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3. O'r 41 oedd wedi darllen y ddogfen, roedd 40 yn cytuno ei bod yn hawdd ei darllen a'i bod yn berthnasol i'w gwaith. Roedd pob un o'r 41 yn cytuno bod y ddogfen yn defnyddio iaith sy'n berthnasol i'r sector blynyddoedd cynnar.

5.4. Mewn sylwadau ysgrifenedig, pwysleisiodd rhai ymatebwyr fod gan y ddogfen strwythur syml a'i bod yn hawdd ei darllen a'i dilyn.

> "Rydym yn defnyddio['r ddogfen hon] yn ein meithrinfa ac yn ei chysylltu â meysydd yn arsylwadau'r plant … Mae staff yn ei chael hi'n hawdd gwneud arsylwadau ar sail y llwybrau yn enwedig gan eu bod yn cysylltu â'r adran cyn-ysgol o'r feithrinfa nas cynhelir."

5.5. Roedd llawer o ymatebwyr yn croesawu'r ffaith bod y ddogfen yn canolbwyntio ar y grwpiau oedran ieuengaf, gydag un yn nodi diffyg deunyddiau amgen gyda ffocws tebyg.

> "Mae'n hyfryd cael dogfen waith ar gyfer y plant 0–3 oed yr ydym yn gofalu amdanynt a dathlu pwysigrwydd blynyddoedd cyntaf bywyd pobl ifanc."

> "Dwi wedi gweithio yn Lloegr o'r blaen felly [roeddwn] wedi fy synnu gan y diffyg arweiniad yn wreiddiol ar gyfer ymarferwyr 0–3. Bu aros hir am hwn."

5.6. Fodd bynnag, teimlai nifer fach o ymatebwyr y gellid gwneud gwelliannau o ran darparu mwy o eglurder ar enghreifftiau a diffiniadau penodol.

> "… gan nad oes 'blwch ticio', mae rhai yn ei chael hi'n anodd gweld a yw plentyn yn dod yn ei flaen."

> "Gall rhai datblygiadau allweddol nad ydynt yn cael eu crybwyll mewn datganiadau fel cerdded – [byddai ychwanegu hyn yn] cefnogi rhai ymarferwyr newydd i fod yn ymwybodol [o] pryd i gyfeirio am gymorth pellach gyda meysydd fel 'corfforol'."

5.7. O'r rhai a oedd wedi darllen dogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3 (40), teimlai 73 y cant (30) ei bod wedi dylanwadu ar eu hymarfer a'u hannog i roi mwy o bwyslais ar chwarae yn eu gwaith. Teimlai 73 y cant o'r rhai a oedd wedi darllen yr adnodd (30) ei fod wedi eu hannog i ganolbwyntio ar ddatblygiad plant, a theimlai 78 y cant (32) ei fod wedi eu gwneud yn fwy hyderus wrth gynllunio darpariaeth.

# 6. Crynodeb

6.1. Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg am eu barn ar gyfres o adnoddau:

- Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru
- Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru: Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol
- Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Llwybrau Datblygu 0 i 3

6.2. O'r 69 o ymatebwyr i'r arolwg, roedd mwyafrif wedi clywed am y tri adnodd ar gyfer gofal plant, lleoliadau chwarae ac ysgolion ar chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar rhwng 0 a 5 oed yng Nghymru ac wedi'u darllen.

6.3. Y ffordd fwyaf cyffredin o glywed am yr adnoddau hyn oedd trwy sefydliadau blynyddoedd cynnar, ac yna gwefan Llywodraeth Cymru.

6.4. Roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ynghylch yr iaith gyffredinol a’r cyflwyniad a ddefnyddiwyd yn yr adnoddau, ac roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod yr adnoddau’n berthnasol i’w gwaith. Roedd rhai ymatebwyr am weld enghreifftiau mwy ymarferol, gan gynnwys camau penodol ar gyfer datblygiad plant ac enghreifftiau o sut y gellid asesu a chofnodi cynnydd.

6.5. Canfu’r rhan fwyaf o’r rhai a oedd wedi darllen yr adnoddau eu bod wedi dylanwadu ar eu harfer, eu gwneud yn fwy hyderus wrth gynllunio, a’u hannog i roi mwy o bwyslais ar chwarae ac ar ddatblygiad plant.

# Atodiad 1 – Holiadur – Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru a deunyddiau ategol, [wedi'i gyfieithu'n flaenorol, Ll(304006)(w)]

# Y Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru a deunyddiau ategol

**Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: holiadur ynghylch y dogfennau ategol**

**Ym mis Mehefin 2023, fel rhan o'n dull Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ar gyfer plant 0–5 oed yng Nghymru, cyhoeddwyd y dogfennau canlynol i gefnogi ymarferwyr i ddarparu chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar o ansawdd:**

- **Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru.**
- **Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru: Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol**
- **Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Llwybrau Datblygu 0 i 3**

**Mae'r dogfennau hyn wedi eu datblygu gan ymarferwyr ar gyfer ymarferwyr ym mhob lleoliad gofal plant a chwarae ac ysgolion yng Nghymru, pe baent am eu defnyddio. Yn eu cyfanrwydd byddant yn cefnogi darpariaeth o ansawdd ar gyfer pob baban a phob plentyn ifanc yng Nghymru.**

**Mae'r arolwg yn gyfle inni glywed safbwyntiau ar y gyfres o ddogfennau fel ag y mae, clywed sut mae'r dogfennau'n cael eu rhoi ar waith yn ymarferol, a nodi meysydd i'w diwygio ymhellach gan gynnwys unrhyw ddeunyddiau ategol ychwanegol sydd eu hangen. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan ymarferwyr a rheolwyr gofal plant, gwarchodwyr plant a'u cynorthwywyr, arweinwyr a chynorthwywyr cylchoedd chwarae, gweithwyr chwarae, ymarferwyr Dechrau'n Deg, cynorthwywyr addysgu, athrawon, Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar ac arweinwyr Dysgu Sylfaen mewn lleoliadau addysg, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol.**

**Ni fydd yr arolwg yn gofyn am unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch chi'ch hun nac am unrhyw un arall, a bydd yr holl ymatebion yn cael eu trin yn ddienw. Yn eich ymatebion, peidiwch â darparu unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i'ch adnabod chi neu unrhyw un arall. Os bydd unrhyw ddata personol yn cael eu cynnwys mewn ymatebion, byddwn yn eu dileu cyn ymgymryd â'n gwaith dadansoddi.**

**Dylai gymryd tua 10 munud i gwblhau'r arolwg. Rydym yn ddiolchgar iawn am eich amser.**

# 2. Eich cefndir

1. Beth yw eich swydd bresennol?

- [ ] Ymarferydd gofal plant
- [ ] Ymarferydd addysg
- [ ] Ymarferydd gwaith chwarae
- [ ] Arall (manylwch):

2. Ym mha fath o leoliad ydych chi’n gweithio?

- [ ] Gwarchodwr plant
- [ ] Meithrinfa breifat
- [ ] Meithrinfa a gynhelir gan awdurdod lleol
- [ ] Meithrinfa mewn ysgol
- [ ] Darparwr gwaith chwarae
- [ ] Arall (manylwch):

3. Ym mha ardal awdurdod lleol ydych chi’n gweithio?

- [ ] Ynys Môn
- [ ] Gwynedd
- [ ] Conwy
- [ ] Sir Ddinbych
- [ ] Sir y Fflint
- [ ] Wrecsam
- [ ] Powys
- [ ] Ceredigion
- [ ] Sir Benfro
- [ ] Sir Gaerfyrddin
- [ ] Abertawe
- [ ] Castell-nedd Port Talbot
- [ ] Pen-y-bont ar Ogwr
- [ ] Bro Morgannwg

- [ ] Caerdydd
- [ ] Rhondda Cynon Taf
- [ ] Merthyr Tudful
- [ ] Caerffili
- [ ] Blaenau Gwent
- [ ] Torfaen
- [ ] Sir Fynwy
- [ ] Casnewydd
- [ ] Ddim yn gwybod

# 3. Y Fframwaith

**Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar**

**Mae’r Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar i Gymru yn dwyn ynghyd y gofynion amrywiol ar gyfer darparu’r math o ddarpariaeth uchel ei safon sydd ei hangen yng Nghymru. Dylai arweinwyr ac ymarferwyr ar draws lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae, ynghyd ag ysgolion, ddefnyddio’r fframwaith hwn i lywio eu darpariaeth. Gall rhieni/gofalwyr ddefnyddio’r fframwaith i ddeall yn well y ddarpariaeth sydd ar gael i'w plentyn, a gall awdurdodau lleol ei ddefnyddio er mwyn cefnogi datblygiad a gwella darpariaeth.**

4. Darllenwch y datganiad canlynol a dywedwch wrthym a ydych yn cytuno ynteu’n anghytuno ag ef.

| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Rwyf wedi clywed am y Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar i Gymru | ☐ | ☐ | ☐ |

# 4. Y Fframwaith

5. Darllenwch y datganiad canlynol a dywedwch wrthym a ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno ag ef.

| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Rwyf wedi darllen y Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar i Gymru | ☐ | ☐ | ☐ |

# 5. Y Fframwaith

6. Os ydych wedi darllen y Fframwaith, darllenwch y datganiadau canlynol a dywedwch wrthym a ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno â nhw.

| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Roedd y Fframwaith yn hawdd i'w ddarllen. | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r Fframwaith yn defnyddio iaith sy'n berthnasol i'r sector blynyddoedd cynnar. | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r Fframwaith yn berthnasol i'r gwaith rwy'n ei wneud. | ☐ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:

7. Beth, yn eich barn chi, sy'n gweithio'n dda am y Fframwaith?

8. Beth, yn eich barn chi, sydd ddim yn gweithio'n dda am y Fframwaith?

# 6. Y Fframwaith

9. Darllenwch y datganiad canlynol a dywedwch wrthym a ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno ag ef.

| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Mae'r Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar i Gymru wedi dylanwadu ar fy ngwaith. | ☐ | ☐ | ☐ |

# 7. Y Fframwaith

10. Darllenwch y datganiadau canlynol a dywedwch wrthym a ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno â nhw.

| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Mae'r Fframwaith wedi fy annog i ganolbwyntio mwy ar fonitro deilliannau datblygiad plant. | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r Fframwaith wedi gwneud imi deimlo'n fwy hyderus wrth gynllunio fy narpariaeth. | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r Fframwaith wedi fy annog i roi mwy o bwyslais ar chwarae yn fy ngwaith. | ☐ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:

# 8. Y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol

**Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol**

**Datblygwyd ‘Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol’ i helpu unigolion a thimau i fyfyrio ar ansawdd chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar. Mae’n dwyn ynghyd y gwahanol ofynion sy’n gysylltiedig â chyflwyno’r math o ddarpariaeth chwarae, dysgu a gofal o ansawdd uchel sydd ei hangen yng Nghymru. Dylai defnyddio’r Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol sicrhau ein bod yn cynnig dulliau llwyddiannus sy’n seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth dda o ddarparu chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar, a dylai ein helpu i fyfyrio ar ein hymarfer a’i wella’n barhaus er mwyn rhoi cymorth gwell i bob plentyn ffynnu.**

11. Darllenwch y datganiad canlynol a dywedwch wrthym a ydych yn cytuno ynteu’n anghytuno ag ef.

| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Rwyf wedi clywed am y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol | ☐ | ☐ | ☐ |

# 9. Y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol

12. Sut glywsoch chi am y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol?

- [ ] Gan gydweithiwr neu reolwr
- [ ] Ar wefan Llywodraeth Cymru
- [ ] Trwy sefydliad blynyddoedd cynnar yr wyf yn aelod ohono
- [ ] Ddim yn gwybod
- [ ] Arall (manylwch):

# 10. Y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol

13. Darllenwch y datganiad canlynol a dywedwch wrthym a ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno ag ef.

| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Rwyf wedi darllen y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol | ☐ | ☐ | ☐ |

# 11. Y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol

14. Os ydych wedi darllen y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol, darllenwch y datganiadau canlynol a dywedwch wrthym a ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno â nhw.

| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Roedd y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol yn hawdd i'w ddarllen. | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol yn defnyddio iaith sy'n berthnasol i'r sector blynyddoedd cynnar. | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol yn berthnasol i'r gwaith rwy'n ei wneud. | ☐ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:

15. Beth, yn eich barn chi, sy'n gweithio'n dda am y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol?

16. Beth, yn eich barn chi, sydd ddim yn gweithio'n dda am y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol?

# 12. Y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol

17. Darllenwch y datganiad canlynol a dywedwch wrthym a ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno ag ef.

| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Mae'r Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol wedi dylanwadu ar fy ngwaith. | ☐ | ☐ | ☐ |

# 13. Y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol

18. Darllenwch y datganiadau canlynol a dywedwch wrthym a ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno â nhw.

| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Mae'r Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol wedi fy annog i ganolbwyntio mwy ar fonitro deilliannau datblygiad plant. | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol wedi gwneud imi deimlo'n fwy hyderus wrth gynllunio fy narpariaeth. | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol wedi fy annog i roi mwy o bwyslais ar chwarae yn fy ngwaith. | ☐ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:

| |
|---|
| |

# 14. Y ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3

**Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar: Llwybrau datblygu 0 i 3**

**Mae ‘Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar: Llwybrau datblygu 0 i 3’ yn nodi fframwaith ar gyfer sicrhau darpariaeth o ansawdd i bob plentyn o’i enedigaeth hyd at 3 oed. Mae’n canolbwyntio ar yr hyn sy’n bwysig i ddatblygiad plant a sut y gallwn eu cefnogi orau i dyfu a datblygu mewn ffyrdd sy’n addas ar gyfer eu cam datblygu.**

19. Darllenwch y datganiad canlynol a dywedwch wrthym a ydych yn cytuno ynteu’n anghytuno ag ef.

| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Rwyf wedi clywed am y ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3 | ☐ | ☐ | ☐ |

# 15. Y ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3

20. Sut glywsoch chi am y ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3?

- [ ] Gan gydweithiwr neu reolwr
- [ ] Ar wefan Llywodraeth Cymru
- [ ] Trwy sefydliad blynyddoedd cynnar yr wyf yn aelod ohono
- [ ] Ddim yn gwybod
- [ ] Arall (manylwch):

## 16. Dogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3

21. Darllenwch y datganiad canlynol a dywedwch wrthym a ydych yn cytuno ynteu’n anghytuno ag ef.

| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Rwyf wedi darllen y ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3 | ☐ | ☐ | ☐ |

# 17. Y ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3

22. Os ydych wedi darllen y ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3, darllenwch y datganiadau canlynol a dywedwch wrthym a ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno â nhw.

| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Roedd y ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3 yn hawdd ei darllen. | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3 yn defnyddio iaith sy'n berthnasol i'r sector blynyddoedd cynnar. | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3 yn berthnasol i'r gwaith rwy'n ei wneud. | ☐ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:

23. Beth, yn eich barn chi, sy'n gweithio'n dda am y ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3?

24. Beth, yn eich barn chi, sydd ddim yn gweithio'n dda gyda'r ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3?

## 18. Y ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3

25. Darllenwch y datganiad canlynol a dywedwch wrthym a ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno ag ef.

| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Mae'r ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3 i Gymru wedi dylanwadu ar fy ngwaith. | ☐ | ☐ | ☐ |

# 19. Y ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3

26. Darllenwch y datganiadau canlynol a dywedwch wrthym a ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno â nhw.

| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Mae'r ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3 wedi fy annog i ganolbwyntio mwy ar fonitro deilliannau datblygiad plant. | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3 wedi gwneud imi deimlo'n fwy hyderus wrth gynllunio fy narpariaeth. | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3 wedi fy annog i roi mwy o bwyslais ar chwarae yn fy ngwaith. | ☐ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:

# 20. Newidiadau

27. Yn eich barn chi, a oes unrhyw newidiadau posibl i'r Fframwaith a'r dogfennau ategol y dylem eu gwneud? Nid oes cyfyngiad o ran nifer y geiriau, felly ysgrifennwch gymaint ag yr hoffech.

| | |
|---|---|
| Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru | |
| Y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol | |
| Y ddogfen Llwybrau Datblygu 0 i 3 | |